**Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd nos Lun, 15fed Ionawr, 2024 drwy gyfrwng Zoom**

**Presennol**: Steve (SW),**(Cadeirydd)** Iolo Roberts (IPR),Iolo ap Gwynn (IAG),Richard (RR), Keith (KR), Dwynwen (DP), Dewi (DH), Gethin (GR), Sioned (SLL), Raymond (RG), Elen (EH), Eurig (EJ).

Ymddiheuriadau: Dilys,

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **COFNODION**<br><br>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol fel rhai cywir:<br>i. 11 Medi, 2023<br>ii. 17 Hydref, 2023 | |
| **2.** | **CYFETHOL AELOD**<br><br>Adroddwyd gan IPR fod sedd wag ar y Pwyllgor bellach yn dilyn ymadawiad Ariannell i Awstralia. Roedd Eurig James wedi ei gynnig a'i eilio i'w gyfethol i wasanaethau ar y Pwyllgor yn lle Ariannelll ac roedd wedi datgan ei fod yn fodlon gwneud hynny.<br><br>Cytunwyd<br>i. i gyfethol Eurig i wasanaethau ar y Pwyllgor yn lle Ariannell<br>ii. diolch i Ariannell am ei chyfraniad i waith y Pwyllgor a dymuno'n dda iddi ar ei hanturiaethau yn Awstralia. | |
| **3.** | **MATERION ARIANNOL**<br><br>Cafwyd diweddariad gan DAP ynglŷn â'r sefyllfa gyfredol<br><br>Adroddodd<br><br>• Ar y 4ydd o Ionawr 2024 bod 210 o aelodau wedi ail ymaelodi ar gyfer 2024 a 60 o unigolion wedi talu £20 neu lai. Roedd 46 o aelodau dal heb dalu ond roedd y sefyllfa yn newid yn ddyddiol<br><br>• O'r tâl aelodaeth o £25, y byddai'n gwneud taliad o £23.90 y pen i'r CMP maes o law. Credai, gan fod swm o oddeutu £5,000 wrth gefn, bod sefyllfa ariannol y Clwb yn iach ar y funud.<br><br>• Fod dwy daith breswyl ar y gweill ar hyn o bryd, sef i Crianlarich a Hawes, a bod trefniadau ar y gweill i gasglu taliadau a thalu'r llety<br><br>• Fod cyfrifon a 'r adroddiad blynyddol wedi eu hanfon i'r Comisiynwyr Elusennau<br><br>Cytunwyd nodi'r wybodaeth | |
| **4.** | **CYFARFOD BLYNYDDOL 2023**<br><br>Adroddwyd gan IPR fod y materion canlynol wedi eu codi yn y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2023 yng Ngwesty'r Royal Oak ym Metws y Coed.<br><br>**1. Taliadau i'r Cyngor Mynydda Prydeinig**<br><br>A. Yn y cyfarfod cafwyd gwybod gan y Trysorydd fod rhan helaeth o dâl aelodaeth y Clwb yn cael ei dalu i'r Cyngor Mynydda Prydeinig (CMP) . Holodd Gwyn Roberts (Llanberis) beth oedd | |

y manteision o wneud hynny a  chafwyd trafodaeth ar y mater.  Cytunwyd ar y canlynol:

i. gofyn i'r Pwyllgor roi ystyriaeth i'r mater
ii. gofyn i'r Ysgrifennydd  Gweithgareddau ,yn un o'i negeseuon rheolaidd i'r aelodau, nodi fod y Cyfarfod Blynyddol yn annog aelodau i fynychu cyfarfodydd rhanbarthol y CMP er mwyn sicrhau bod dylanwad trigolion lleol a Chymru Cymraeg  ynddynt.

B. Yn y drafodaeth ar hyn cyfeiriwyd at y ffaith fod Gwyn Williams (Llanrwst), ar gais y Pwyllgor, wedi edrych i fewn i hyn yn y gorffennol a chanfod fod yr yswiriant a dderbynnir drwy aelodaeth a'r CMP yn gystadleuol a hefyd ei bod o fantais i'r Clwb fod yn aelod o gorff oedd  a  dylanwad  yn y byd mynydda.

Cytunwyd
i. ail-ategu fod y Pwyllgor o'r  farn ei bod o werth i'r Clwb  fod yn aelod o'r CMP
ii. cytuno â'r awgrym fod yr  Ysgrifennydd  Gweithgareddau ,yn un o'i negeseuon rheolaidd i'r aelodau, yn nodi fod y Cyfarfod Blynyddol yn annog aelodau i fynychu cyfarfodydd rhanbarthol y CMP er mwyn sicrhau bod dylanwad trigolion lleol a Chymru Cymraeg ynddynt.
iii. byddai SW yn rhoi gwybod  i RR am ddyddiadau y cyfarfodydd rhanbarthol dan sylw

**2. Archif**

Nododd Gwyn Williams (Llanrwst) fod y Clwb, pan  yn dathlu 40fed  pen-blwydd yn 2019, wedi cael stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst.  Cafwyd ynddi arddangosfa o ddogfennau cysylltiedig â sefydlu'r Clwb yn y blynyddoedd cynnar.  Yn y Cyfarfod Blynyddol yn 2019 cytunwyd ei  bod  yn werth cadw'r dogfennau hyn fel cofnod hanesyddol ac y dylid, cyn belled â bod perchnogion y dogfennau yn cytuno, ystyried eu cynnig i'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth fel y byddent yn cael eu diogelu i'r dyfodol.

Yn y cyfarfod holodd Gwyn os bu unrhyw ddatblygiad ynglŷn â hyn a nododd y gallasai dyfodiad y pandemig Cofid y flwyddyn ganlynol fod wedi  amharu arno ac roedd y Cyfarfod Blynyddol wedi  gofyn i'r Pwyllgor ystyried y  mater.

Cytunwyd, fel cam cyntaf, y  byddai SW yn holi Anet a Maldwyn a IAG yn holi Dei Tomos i weld os oedd ganddynt ddogfennau yn ymwneud â sefydlu'r Clwb.

**5.** **CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB**

Adroddodd RR ar y materion canlynol:

Bod rhaglen lawn o weithgareddau hyd at Ebrill 2024 a byddai maes o law yn dechrau cynllunio'r  rhaglen ar gyfer y cyfnod  Mai i Awst. Yn y gogledd,  gan fod cynifer  o gynigion o deithiau yn cael eu cynnig, roedd wedi llwyddo i gael taith bron i bob Sadwrn ac roedd yn hynod o ddiolchgar i'r holl aelodau oedd yn cynnig arwain teithiau.  Roedd Haf wrthi yn paratoi rhaglen o deithiau dydd Mercher

Credai,  yn dilyn llwyddiant y daith blasu y llynedd, y byddai'n dda o beth i drefnu un arall eleni i'w chynnwys yn y rhaglen nesaf.

Adroddodd KR fod trefniant bellach i gynnal wythnos yn yr Alban ym mis Mai. Roedd wedi derbyn gwybodaeth am 3 bwthyn yn  Inchree  ac  wedi llwyddo i'w llogi am yr wythnos yn cychwyn 18 Mai 2024. Byddai'n cylchredeg  gwybodaeth am yr wythnos i'r aelodau yn fuan a diolchodd i DP am ei chymorth

| | | |
|---|---|---|
| | Cytunwyd<br><br>i. nodi'r wybodaeth a diolch i Richard, Dewi, Haf a Keith am eu holl waith yn trefnu rhaglen weithgareddau'r Clwb<br><br>ii. cytuno â'r awgrym i gynnal taith flasu unwaith eto eleni<br><br>iii. cymeradwyo bwriad KR i drefnu 'r wythnos o fynydda yn yr Alban yn Inchree ym mis Mai. | |
| **6** | **<u>CANLLAWIAU AR GYFER TEITHIAU PRESWYL</u>**<br><br>Adroddwyd gan SW<br><br>a. Cafwyd trafodaeth yn y cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 17 Hydref, 2023 y cyfeirir ato yn eitem 1(ii) uchod ar ganllawiau y Clwb ar gyfer teithiau preswyl ac yn arbennig ar y cymal am ychwanegu tua 10% at gost dybiedig y daith fel bod arian wrth gefn<br><br>b. Bod y Pwyllgor a'r Cyfarfod Blynyddol wedi penderfynu na ddylai teithiau preswyl wneud colled fyddai'n golygu bod y Clwb yn gorfod gwneud iawn amdano.<br><br>c. Roedd tuedd i'r Clwb bellach defnyddio amrywiaeth o wahanol fathau o lety ar gyfer teithiau preswyl,yn amrywio o hostelau i ystafelloedd mewn gwestai, a olygai amrediad yn y prisiau a godir.<br><br>Cytunwyd<br><br>i. byddai diwygio cymal 9 yn y canllawiau i ddarllen fel a ganlyn yn sicrhau bod hyblygrwydd yn yr hyn a godir yn ychwanegol ar aelodau tra yn ceisio sicrhau na fydd y Clwb yn gorfod cwrdd ag unrhyw ddiffyg:<br><br>*9. Dylid ychwanegu hyd at 10% at gost dybiedig y daith fel bod arian wrth gefn*<br><br>ii. gofyn i SW drefnu hefo IAG fod y polisi yn cael ei ddiweddaru ar y wefan. | |
| **7.** | **<u>EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2024</u>**<br><br>Trafodwyd trefniadau ar gyfer gweithgareddau'r Clwb yn Eisteddfod Genedlaethol 2024 ym Mhontypridd. Cafwyd ar ddeall fod Gerallt Pennant wedi cytuno i roi Darlith Goffa Llew Gwent eleni.<br><br>Cytunwyd<br><br>i. byddai DP yn hysbysu SW o'r dyddiad y gellir gwneud cais i'r Eisteddfod am slot ym Mhabell Cymdeithasau<br>ii. diolch i Gerallt Pennant am gytuno i roi darlith Goffa Llew Gwent yn yr Eisteddfod<br>iii. byddai DH yn trefnu taith Goffa Gareth Pierce yn ystod yr wythnos | |
| **8.** | **<u>SGILIAU MYNYDDA GAEAF</u>**<br><br>Ystyriwyd , ar gais EH, gan fod y Clwb yn trefnu gweithgareddau mynydda gaeaf gartref ac yn yr Alban, a ddylid codi ymwybyddiaeth yr aelodau hynny a oedd yn eu mynychu am y sgiliau mynydda gaeaf angenrheidiol i sicrhau y gellid ymdopi a mwynhau'r profiad yn ddiogel.<br><br>Cyfeiriodd EH at y wefan "thinkwinter" gan Gyngor Mynydda'r Alban (SMC) yn cynnwys llawer o wybodaeth ddefnyddiol am sgiliau mynydda gaeaf.<br><br>Cytunwyd | |

| | | |
|---|---|---|
| | i. mai cyfrifoldeb pob aelod unigol oedd gwneud yn siŵr eu bod yn gwybod sut i fynydda gaeaf yn ddiogel<br>ii. mai da o beth fyddai tynnu sylw'r aelodau oedd yn mynd i'r Alban at y wefan "thinkwinter" ac i'w hannog, os angen, i ystyried mynychu cwrs priodol ym Mhlas y Brenin, Capel Curig neu yn yr Alban er mwyn sicrhau bod eu sgiliau yn addas a digonol. | |
| **9.** | **<u>MATERION CMP</u>**<br><br>Adroddodd SW<br><br>a. bod Tim Jepson, fu'n cadeirio Rhanbarth Gogledd Cymru CMP ers nifer o flynyddoedd, wedi cytuno i barhau yn y swydd gan nad oedd neb wedi dod ymlaen i gymryd ei le. Roedd trefniadau wedi eu gwneud i ddosbarthu rhai cyfrifoldebau fel y byddai llai o faich arno.<br><br>b. mai ond 18 oedd yn bresennol yng nghyfarfod blynyddol y Gymdeithas<br><br>Cytunwyd nodi'r wybodaeth. | |
| **10.** | **<u>MATERION Y BARTNERIAETH AWYR AGORED</u>**<br><br>Adroddwyd ar y canlynol<br><br>• Bod 10 o aelodau wedi gwneud eu hyfforddiant cymhwyster Arweinydd Mynydd a bellach yn hel profiad o fynydda ar gyfer eu logiau<br>• Bod angen trefnu cwrs cymorth cyntaf i'r aelodau hynny yn y gogledd yr oedd eu cymhwyster presennol yn dod i ben ar ôl cyfnod o dair blynedd ac angen ei adnewyddu<br>• Bod criw o aelodau'r de hefyd mewn sefyllfa gyffelyb gyda'u cymhwyster presennol yn dod i ben<br>• Bod y 10 aelod oedd wedi gwneud yr hyfforddiant ar gyfer y cwrs arweinydd mynydd hefyd angen y cymhwyster cymorth cyntaf fel rhan o'r broses o gymhwyso ac efallai mai mis Ebrill fyddai'r adeg ddelfrydol ar gyfer cwrs o'r fath<br><br>Cytunwyd<br><br>i. gofyn i RG drafod â Sian Williams anghenion hyfforddiant cymorth cyntaf yn y gogledd eleni<br>ii. gofyn i DH drafod â Cydlynydd y Bartneriaeth yn ne Cymru yr angen am gwrs cymorth cyntaf ar gyfer yr aelodau . | |
| **11.** | **<u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u>**<br><br>Cytunwyd y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal am 8pm, nos Lun 13eg o Fai, 2024, drwy gyfrwng Zoom. | |